Ffarweliwyd â chewch o blant o'r ysgol Gynradd - pump ohonynt i'r ysgol Uwchradd ac un ohonynt i'r Ysgol Gymraeg yn Aberystwyth. Pob Dymuniad Da i'r chewch ohonynt, sef Manon Hughes Trawsnant, Ann Jones Clawddmelyn, Paul Sadler Savanah, a Rhydian Mason Cwm Isaf i Ysgol Pen-weddig, a Ben Robinson Y Byngalow i Penglais, a Nerys Sadler Savanah i'r Ysgol Gymraeg. Gobeithio byddant i gyd yn hapus wrth ddechrau ar eu cyfnod newydd.

Croeso cynnes iawn, Dafydd Lewis, Tir y Dail i'r ysgol. Mae yn ymddangos fel pe bai wedi ymgartrefi'n barod, ac onid yw Trystan ei frawd yn gallu bod yn esiampl ac arweinydd iddo.
Pob lwc Dafydd Bach.

Gwibdaith yr Ysgol

Er bod mis Gorffennaf yn ymddangos ymhell bell yn ôl erbyn hyn - fe gofiwn yn hawdd am ein gwibdaith eleni. Caerdydd oedd ein cyrchfan ac yr oedd y 3ydd o Orffennaf yn fore o haf perffaith a phawb mewn hwyliau da.
Teithiwyd ar hyd y ffordd fawr trwy Benrhyncoch, yna gyda glan y môr i Aberaeron, a thros Fanc Sion Cwilt i Landysul. Teithiwyd ymlaen tryw Gaer-fyrddin hyd Bont Abram lle caf-wyd seibiant byr cyn ail gydio yn y daith. Ymlaen ar y drafforddd hyd y Parc ger Penybont ar Ogwr - lle cafwyd cyfle i gael gwasanaethau a bwyd. Yma